WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2019 – **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1545A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Fflur Jones, David Poland a Mike Whitely dan gyfarwyddyd Dave Thomas.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Cefndir 4

Prif gasgliadau 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

**Llywodraethu**: Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau trefniadau llywodraethu, er nad yw perfformiad mewn meysydd allweddol yn gwella fel a fwriadwyd ac y gallai gryfhau defnydd o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 8

**Cynllunio strategol**: Ceir weledigaeth strategol glir, trefniadau cynllunio da ar y cyfan a threfniadau darparu wedi'u cryfhau, gyda chyfle i wneud rhai gwelliannau pellach 15

**Rheoli adnoddau ariannol**: Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau ariannol, ond gallai wella'r modd y mae'n cynllunio cyfalaf, yn cyflawni arbedion ac yn adrodd ar weithredoedd tendrau sengl 20

**Rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu**: Mae gwaith yn mynd rhagddo i foderneiddio'r gweithlu, gwella lles staff a mynd i'r afael â heriau gyda hyfforddiant ac absenoldeb oherwydd salwch 27

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2019 yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Mae ein gwaith asesu strwythuredig ar gyfer 2019 wedi cynnwys cyfweliadau gyda swyddogion a Chyfarwyddwyr Anweithredol, arsylwadau yng nghyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau ac adolygiadau o ddogfennau perthnasol, perfformiad a data ariannol.

3 Mae ffocws allweddol asesu strwythuredig ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Eleni, rhoddodd archwilwyr sylw hollbwysig i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cyfleoedd ar gyfer gwella a nodwyd yn 2018 ac mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan bedair thema – trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ei gwaith cynllunio strategol, y modd y mae'n rheoli adnoddau ariannol a'r modd y mae'n rheoli'r gweithlu.

## Cefndir

4 Yn ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2018 daethom i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu ei hagenda cynllunio strategol a'i bod yn ymrwymedig i weithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol ond y gallai wella'i gafael a chyflymder y newid mewn rhai meysydd. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal ei statws ar fframwaith uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru o 'drefniadau rheolaidd' ac mae wedi cynnal ei hanes o fantoli'r cyfrifon ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn ogystal â sicrhau Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) cymeradwy.

5 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu newidiadau i benodiadau aelodau'r Bwrdd, gyda'r Cadeirydd interim yn cael ei benodi'n barhaol a Chyfarwyddwyr newydd ar gyfer Gweithrediadau, Ansawdd a Nyrsio, a Chynllunio a Pherfformiad yn ymgymryd â'u swyddi. Mae newidiadau pellach yn yr arfaeth ar gyfer diwedd 2019.

6 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi wynebu heriau o ran perfformiad coch ac ambr yn ystod 2019. Effeithiwyd yn arbennig ar berfformiad gan gyfnodau o alw uchel iawn, megis ym mis Medi 2019, pan aeth yr Ymddiriedolaeth i mewn i lefel tri o'i Chynllun Gweithredu ar gyfer Cynyddu Adnoddau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ehangu ei harlwy iechyd i ateb galw cynyddol trwy ddatblygu ei model gweithlu ymhellach. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno'r gwasanaeth 111.

7 Gan bod yr adroddiad hwn yn rhoi sylwebaeth ar agweddau allweddol ar gynnydd a materion yn codi ers ein hasesiad strwythuredig diwethaf, dylid ei ddarllen ar y

cyd ag ystyried ein Hasesiad Strwythuredig o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru 2018.

## Prif gasgliadau

8 Ein casgliad ar y cyfan o'n gwaith asesu strwythuredig ar gyfer 2019 yw bod **yr Ymddiriedolaeth wedi pennu gweledigaeth hirdymor, eglur ar gyfer y sefydliad a honno'n cael ei hategu gan newidiadau i'w strwythur a'i gweithlu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau trefniadau rheoli risg a llywodraethu mewn rhai meysydd, gan gynnwys newidiadau i amlder cyfarfodydd y Bwrdd a strwythurau pwyllgorau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau â'i hanes da o gyflawni ei dyletswyddau ariannol ac mae wedi gwneud rhai gwelliannau i'r modd y mae'n adrodd ar berfformiad. Fodd bynnag, gallai wella perfformiad ymhellach mewn meysydd gan gynnwys galwadau coch ac ambr, ac absenoldeb oherwydd salwch; symud y tu hwnt i gylchoedd cynllunio cyfalaf blynyddol; gwella'r modd y mae'n adrodd ar weithredoedd tendrau sengl a chryfhau fframwaith sicrwydd y bwrdd.**

9 Mae'r Bwrdd yn effeithiol ar y cyfan er y bu'n rheoli tair swydd wag yn ystod 2019 ac mae newidiadau diweddar ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau'n cael effaith gadarnhaol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella'i phrosesau rheoli risg gyda phlatfform e-risg newydd. Canfuom gyfle i gryfhau defnydd o fframwaith sicrwydd y bwrdd i gynyddu i'r eithaf ei ddefnyddioldeb fel offeryn sicrwydd ar gyfer y sefydliad. Dangosodd ein gwaith lleol yn 2019 gynnydd da yn nhrefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer adrodd ar berfformiad. Fodd bynnag, mae'r fframwaith perfformiad wedi dyddio ac mae perfformiad wedi gwaethygu ar gyfer sawl metrig allweddol, yr effeithiwyd arnynt gan alw uwch ac oedi wrth drosglwyddo.

10 Mae Fframwaith Strategol Hirdymor yr Ymddiriedolaeth 2019-30 a chynlluniau strategol eraill yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i sicrhau cymeradwyaeth i'w Chynllun Tymor Canolig Integredig gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cryfhau ei gwaith cynllunio strategol trwy ddefnyddio mwy o wybodaeth trwy ddata ar y galw a chapasiti a data meincnodi. Fodd bynnag, mae'r amseru o ran cytuno ar gynlluniau ar gyfer y gaeaf yn creu pwysau i sicrhau'r seilwaith ansawdd priodol ar gyfer rhai mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Dylai newidiadau diweddar i drefniadau cyflawni gweithredol a monitro ar gyfer ei Chynllun Tymor Canolig Integredig gryfhau gallu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni yn erbyn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig.

11 Ar sail y sefyllfa ym mis chwech o 2019-20 mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o barhau â'i hanes o gyflawni ei dyletswyddau ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae amrywioldeb rhwng cyllidebau a themâu arbedion o hyd, a allai greu problemau yn y dyfodol. Profodd yr Ymddiriedolaeth rai heriau o ran gwario'r gyllideb gyfalaf a ddyrannwyd iddi yn ystod 2019, gan gynnwys cael ei hysbysu'n hwyr ynghylch cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a dylai geisio symud y tu hwnt i broses flynyddol o gynllunio cyfalaf i osgoi hyn yn y dyfodol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar y cyfan ar gyfer adroddiadau ariannol ond

canfuom gyfle i wella eglurder a fformat adroddiadau rheolaidd ar weithredoedd tendrau sengl.

12 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Strategaeth Pobl a Diwylliant i'w gynorthwyo i reoli'r newidiadau i'w fodel ar gyfer y gweithlu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gael llwyddiant parhaus gyda'i digwyddiadau recriwtio 'Big Bang' ar gyfer parafeddygon ond mae'n wynebu rhai heriau o ran recriwtio ar gyfer ei gam arfaethedig i ehangu Uwch Ymarferwyr Parafeddygol a'r gwasanaeth 111. Mae absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod yn broblem er y bu peth gwelliant yn ystod 2019. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio rheoli heriau o ran hyfforddiant trwy weithio mewn partneriaeth gyda phrifysgolion ledled Cymru, a fydd yn cynyddu wrth iddo fwrw ymlaen â'i gais am statws prifysgol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ymgysylltu â staff, gan gynnwys sioeau teithiol gyda'r Prif Weithredwr newydd yn ystod 2019 ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu canfyddiadau o Arolwg Staff y GIG yn 2018 yn rhaglen waith.

13 Mae ein canfyddiadau'n cael eu hystyried mewn mwy o fanylder yn yr adrannau canlynol

# Argymhellion

14 Caiff argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn eu nodi yn Arddangosyn 1. Byddwn yn gosod ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion hyn ar ein gwefan ochr yn ochr â'n hadroddiad unwaith y bydd wedi cael ei ystyried gan y pwyllgor perthnasol.

Arddangosyn 1: argymhellion 2019

| Argymhellion |
|---|
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
| A1 Dylai'r Bwrdd archwilio ffyrdd o gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fel offeryn sicrwydd byw a chadarn ar gyfer ei amcanion corfforaethol trwy:<br>• sicrhau bod Pwyllgorau a grwpiau perthnasol yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu rheolaethau a sicrwydd i asesu eu heffeithiolrwydd ac adnabod unrhyw fylchau; a<br>• sicrhau bod gan y pwyllgorau perthnasol drosolwg reolaidd ar yr amcanion a risgiau strategol a aseiniwyd. |

| Argymhellion |
| --- |
| **Fframwaith Rheoli Perfformiad**<br>A2 Mae'n hen bryd cynnal adolygiad o Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth a bellach mae angen diweddaru'r Fframwaith i sicrhau ei fod yn adlewyrchu:<br>• newidiadau diweddar i drefniadau ar gyfer Cynlluniau Cyflenwi Lleol; a<br>• threfniadau ar gyfer monitro'r modd y caiff y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei gyflawni, egluro priod rolau'r Bwrdd, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. |
| **Cynllunio Cyfalaf**<br>A3 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu dull llai blynyddol o gynllunio cyfalaf. Dylai ddatblygu strategaeth rheoli asedau i helpu i gynllunio'r defnydd o gyfalaf mewn ffordd fwy cydgysylltiedig dros y tymor canolig. |
| **Gweithredoedd Tendrau Sengl**<br>A4 Gwella eglurder a manylder yr adroddiadau rheolaidd ar weithredoedd tendrau sengl a ddarperir ar gyfer y Pwyllgor Archwilio i'w gwneud yn bosibl craffu'n effeithiol ac yn gadarn, er enghraifft:<br>• cynnwys lefel uwch o fanylder o ran pam oedd angen y weithred; a<br>• darparu naratif i ddisgrifio amrywiadau rhwng cost y cyllidebwyd ar ei chyfer a chost wirioneddol. |

# Adroddiad manwl

## Llywodraethu

15 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi archwilio trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth. Fe wnaethom fwrw golwg ar y ffordd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n cynnal eu busnes, ac i ba raddau y mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ac atebolrwydd eglur. Fe wnaethom ystyried yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n ei chael i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro'r modd y cyflawni'r amcanion sefydliadol. Fe wnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion.

16 Yn 2019, canfuom fel a ganlyn: **Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau trefniadau llywodraethu, er nad yw perfformiad mewn meysydd allweddol yn gwella fel a fwriadwyd ac y gallai gryfhau defnydd o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**. Caiff ein canfyddiadau eu nodi isod.

### Cynnal busnes yn effeithiol

**Mae newidiadau i gyfarfodydd y Bwrdd a strwythurau pwyllgorau'n cael effaith gadarnhaol ar graffu a throsolwg, ond mae cyfle i wneud rhai gwelliannau i bapurau ac mae angen i reolau sefydlog adlewyrchu newidiadau diweddar**

17 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2018, fe adroddom ni fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud newidiadau i drefniadau ei Bwrdd a'i Phwyllgorau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu amlder a hyd cyfarfodydd ei Bwrdd o fod yn rhai am hanner diwrnod bob chwarter i fod yn rhai am ddiwrnod llawn bob dau fis. Bellach mae sesiynau caeedig yn dilyn y sesiwn agored ac mae'r Bwrdd yn dal i fireinio'i agenda. Mae'r newidiadau hyn yn well o ran cefnogi trosolwg a chraffu ar fusnes yr Ymddiriedolaeth a llif gwybodaeth mwy amserol a rheolaidd i'r Bwrdd. O ganlyniad, mae llai o angen i'r Ymddiriedolaeth ganlyn arni â busnes pwysig y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd, er enghraifft trwy gamau gweithredu'r Cadeirydd, sy'n mynd i'r afael ag un o'n hargymhellion (a nodir yn Arddangosyn 2).

18 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ei Bwrdd trwy sesiynau datblygu Bwrdd rheolaidd, ystyried materion megi y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a fframwaith ymgysylltu'r Ymddiriedolaeth. Mae'r sesiynau hyn yn darparu cyfle pwysig i'r Bwrdd drafod a datblygu agweddau allweddol ar fusnes y Bwrdd mewn mwy o fanylder nag sy'n bosibl yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd wedi prynu gwasanaeth Academi Cymru i ddatblygu a darparu rhaglen datblygu bwrdd ffurfiol i wella sgiliau aelodau'r Bwrdd. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cwblhau dau gam o'r tri ym model Academi Cymru, bu oedi o ran y cynnydd dros y 12 mis diwethaf yn anad dim oherwydd swyddi

gwag ar lefel y Bwrdd, gan gynnwys tair swydd Cyfarwyddwr Anweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn amcanu at fod â chohort llawn o aelodau o'r Bwrdd yn eu lle erbyn 2020 ac yn bwriadu ailgydio yn y rhaglen bryd hynny.

19 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio ei strwythur pwyllgorau yn ddiweddar hefyd, yn dilyn adolygiad dan arweiniad Cyfarwyddwyr Anweithredol. Bellach mae dyletswyddau'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau blaenorol yn cael eu rhannu rhwng dau bwyllgor newydd: y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Sefydlwyd y ddau bwyllgor yma ym mis Ebrill 2019 ac maent yn dal i ddatblygu, gyda'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn penderfynu yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf y byddai'n cynyddu ei amlder ar sail arbrofol i gyfarfodydd bob deufis i oruchwylio a chraffu ar gyllid a pherfformiad yn fwy rheolaidd. Er bod y pwyllgorau'n dal i fod yn gymharol newydd, mae nifer o'r rhai y siaradom ni gyda hwy yn yr Ymddiriedolaeth o'r farn eu bod eisoes yn dwyn ffocws tynnach o lawer ar eu priod feysydd, yn enwedig o ran y gweithlu.

20 Cafodd cynllun dirprwyo'r Ymddiriedolaeth ei adolygu ddiwethaf ym mis Medi 2018 ac nid yw eto'n adlewyrchu'r newidiadau i'r strwythur pwyllgorau. Hefyd, mae angen i'r rheolau sefydlog gydymffurfio â'r rheolau sefydlog enghreifftiol diwygiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019. Mae'r rheolau sefydlog i fod i gael eu hadolygu yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

21 Mae papurau a ddarperir ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau'n rhai o ansawdd da, yn eglur ynglŷn â risg ac ar y cyfan yn darparu'r lefel o sicrwydd sy'n ofynnol. Yn arbennig, mae cyflwyno diweddariad gan y Prif Weithredwr yn darparu adroddiad cynhwysfawr ac eglur ar ddatblygiadau ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio hefyd yn ystod 2019 i wneud cloriau adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn fwy cryno. Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai achlysuron lle gallai'r modd y caiff papurau eu gweinyddu gael ei wella ymhellach. Er enghraifft, mae logiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cynnwys camau gweithredu wedi'u cwblhau sy'n dyddio'n ôl i 2017. Mae sicrhau bod y log gweithredu'n gryno'n galluogi aelodau'r Bwrdd i ganolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n dal heb eu cymryd heb i gamau gweithredu a gwblhawyd fynd â'u sylw. Fe wnaethom hefyd nodi sawl achlysur lle darparwyd diweddariadau llafar, yn lle adroddiadau ysgrifenedig, ar gyfer agweddau pwysig ar fusnes. Er y bydd y cylch busnes yn ei gwneud yn anodd darparu adroddiadau ysgrifenedig o bryd i'w gilydd, nid yw diweddariadau llafar yn rhoi cyfle i aelodau baratoi ymlaen llaw a chraffu'n ddigonol ar yr wybodaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth gyfyngu ar y defnydd o adroddiadau llafar ar gyfer busnes pwysig lle y bo'n bosibl.

## Rheoli risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gryfhau ei threfniadau rheoli risg, ac er bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn dal i esblygu, mae cyfle ar gyfer gwelliant pellach**

22 Yn 2018 fe wnaethom nodi bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio ar ei threfniadau rheoli risg ond bod arfer o ran risgiau, er hynny, yn dal i fod yn anghyson, gyda phryderon ynghylch y ffordd yr oedd risgiau'n cael eu hadnabod, eu sgorio a'u nodi ar y gofrestr risg gorfforaethol. Fe ddwedom ni y dylai'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu ei gwaith arfaethedig pellach i sicrhau ei bod yn rheoli'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad yn effeithiol. Fe wnaeth adolygiad archwilio mewnol o strategaeth a fframwaith rheoli risg yr Ymddiriedolaeth ddarparu sicrwydd rhesymol ym mis Mai 2019, er iddo amlygu hyfforddiant rheoli risg, canllawiau ar adnabod risgiau a threfniadau uwchgyfeirio risgiau fel meysydd i'w gwella.

23 Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella agweddau ar ei phrosesau risg gan gynnwys datblygu cofrestrau risgiau electronig yn DATIX a diwygio'r meini prawf a'r fforwm ar gyfer ystyried ac uwchgyfeirio risgiau. Mae'r newidiadau hyn yn ei gwneud yn bosibl bod â threfniadau mwy cadarn ac amserol ar gyfer adnabod a rheoli risgiau, yn gwneud risgiau'n fwy amlwg, ac yn rhoi anogaeth ar gyfer perchnogaeth ehangach. Mae gwaith yn yr arfaeth hefyd i ddarparu hyfforddiant a datblygu'r gallu rheoli risg fel rhan o gynllun gwella Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth. Er bod y newidiadau hyn yn golygu bod y gofrestr risg gorfforaethol yn fwy cadarn erbyn hyn, nid yw'r manylion ynglŷn â chamau lliniaru a cherrig milltir ar gyfer pob risg yn adlewyrchu'r cyfoeth o wybodaeth a ddangosir ar y system DATIX. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth weithredu arno ar fyrder.

24 Mae adnabod a rheoli risg yn hollbwysig i ddatblygu a chynnal fframwaith sicrwydd y bwrdd sy'n effeithiol. Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd wedi bod ar waith yn yr Ymddiriedolaeth ers 2017, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn mynnu y bydd yn parhau i newid yn unol ag anghenion y busnes. Fe wnaeth papur yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2019 nodi sut y mae'r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn datblygu fframwaith sicrwydd pwyllgorau i adeiladu ar fframwaith sicrwydd presennol y bwrdd. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r bobl y siaradom ni gyda hwy yn yr Ymddiriedolaeth eu bod o'r farn bod ar fframwaith sicrwydd y bwrdd angen mwy o waith i ymwreiddio fel offeryn sicrwydd sy'n gadarn ac yn fyw. Canfu ein hadolygiad rai ffyrdd y gellid ei gryfhau, a nodir yn ein hargymhellion ar gyfer 2019 (Arddangosyn 1). Unwaith y bydd cohort llawn o aelodau'r bwrdd yn eu lle bydd gan yr Ymddiriedolaeth gyfle i archwilio unrhyw newidiadau pellach i gryfhau fframwaith sicrwydd y bwrdd.

## Gwreiddio system sicrwydd gadarn

**Er bod y modd yr adroddir ar berfformiad wedi gwella, mae'r fframwaith rheoli perfformiad wedi dyddio, ac nid yw perfformiad yn gwella yn unol â'r cynlluniau ar gyfer sawl metrig**

25 Fel rhan o'n gwaith maes fe wnaethom fwrw golwg ar systemau eraill sy'n tanategu sicrwydd ar draws y sefydliad gan gynnwys fframwaith perfformiad yr Ymddiriedolaeth, perfformiad dros y 12 mis diwethaf, materion sy'n ymwneud â'i threfniadau llywodraethu ansawdd a chlinigol a'r offeryn tracio argymhellion archwilio.

26 Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith rheoli perfformiad a oedd i fod i gael ei adolygu yn 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ei adolygu erbyn mis Ebrill 2020. Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar Wybodaeth Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth. Daethom i'r casgliad bod gwybodaeth rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith craffu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau, ond bod cyfle i'w gwella ymhellach. Fe wnaethom nodi bod newidiadau diweddar i amlder cyfarfodydd y Bwrdd ac i'r strwythur pwyllgorau'n darparu rhagor o amser i graffu a herio gwybodaeth am berfformiad. Fe wnaethom nodi newidiadau i fformat adroddiadau ar berfformiad hefyd, er ein bod wedi argymell rhai gwelliannau pellach gan gynnwys y dylai'r Ymddiriedolaeth geisio gwerthuso effaith newidiadau diweddar ar ôl cyfnod priodol.

27 Wrth arsylwi ar gyfarfodydd pwyllgorau a'r bwrdd yn ystod gwaith maes fe wnaethom nodi her a chraffu priodol gan Gyfarwyddwyr Anweithredol, yn enwedig ar gyfer mesurau perfformiad CAG a oedd wedi'u nodi'n goch ac 'oddi ar y trywydd cywir', lle nodwyd fod camau gwella cysylltiedig yn wyrdd ac 'ar y trywydd cywir'. Bydd achlysuron lle bydd camau gwella'n gallu cymryd amser i gael effaith, neu lle mae camau gwella'n cael eu negyddu gan ffactorau allanol megis mwy o alw. Roedd ein hadroddiad ar wybodaeth rheoli perfformiad yn 2019 yn cynnwys argymhellion ar gyfer darparu naratif mwy eglur ar faterion sy'n effeithio ar berfformiad a defnydd gwell o ddata rhagweld. Dylai'r argymhellion hyn, unwaith y byddant wedi cael eu rhoi ar waith, ddarparu mwy o eglurder wrth ystyried a yw camau gweithredu mewn perthynas â pherfformiad yn cael yr effaith a ddymunir.

28 O ran perfformiad dros y 12 mis diwethaf, o'r deg dangosydd uchaf a gaiff eu monitro'n rheolaidd gan yr Ymddiriedolaeth, roedd eu hanner wedi cael sgôr CAG coch yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis Medi 2019. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal ei pherfformiad uwchlaw'r targed o 65% bob mis ac eithrio mis Medi 2019 ar gyfer ei galwadau coch, mae'r heriau yn ystod y flwyddyn yn bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn y categori monitro perfformiad

yn fwy manwl gyda'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol ers mis Ebrill 2019.

29 Ym mis Hydref 2018, fe gyhoeddodd y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans yr Adolygiad Ambr: Adolygiad o Alwadau i Wasanaeth Ambiwlans Cymru a Gategoreiddiwyd fel Rhai Ambr. Fe gyflwynodd yr adolygiad nifer o argymhellion i'r Ymddiriedolaeth, yn ogystal â byrddau iechyd, a oedd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â'r oedi cynyddol i gleifion y mae eu galwadau wedi'u categoreiddio fel rhai ambr. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi nifer o'r argymhellion ar waith, gan gynnwys lleihau oedi rhwng trosglwyddo a bod yn glir[1], gwaith parhaus ar absenoldeb oherwydd salwch (fel a drafodir ym mharagraff 78) yn ogystal â gwaith parhaus gydag Undebau Llafur ar oriau gweithredol a gollwyd wrth i staff 'ddychwelyd i'r orsaf'. Fodd bynnag, mae perfformiad ambr dros y 12 mis diwethaf wedi parhau i ddirywio (o ran arosiadau am 65, 95 a 99 munud). Mae data'r Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu'r ffaith bod ei chapasiti i ddarparu ei gwasanaethau wedi aros yn llonydd dros y 12 mis diwethaf, ond bod galw wedi cynyddu tua 4%. Mae data hefyd yn awgrymu cydberthynas uniongyrchol rhwng oedi wrth drosglwyddo cleifion o'r gwasanaeth ambiwlans i ysbytai (a adwaenir hefyd fel oedi wrth drosglwyddo) ac amseroedd aros ar gyfer cleifion y mae eu galwadau wedi'u categoreiddio fel rhai ambr. Fe gynyddodd cyfraddau oedi wrth drosglwyddo'n sylweddol yn 2019 o'i gymharu â 2018. Mae'r rhai y siaradom ni gyda hwy yn yr Ymddiriedolaeth yn teimlo'n hyderus bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud popeth y gall ei wneud yn fewnol i wneud y gwasanaeth mor effeithiol â phosibl, yn ogystal â gweithio i ddylanwadu ar newid yn allanol.

30 Maes arall y mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gwaethygu ynddo yw ei hymateb i Ddigwyddiadau Niweidiol Difrifol (SAI) a phryderon. Er mai bach yw'r niferoedd, mae canran y Digwyddiadau Niweidiol Difrifol a'r pryderon yr ymatebwyd iddynt o fewn y graddfeydd amser gofynnol yn wael, gan amrywio rhwng 30% a 50% yn ystod 2019. Dywed yr Ymddiriedolaeth fod yr oedi hwn i'w briodoli'n rhannol i faterion capasiti o fewn ei thîm cwynion, yn ogystal ag anawsterau o ran ymateb i gwynion ynglŷn ag oedi wrth drosglwyddo, sy'n waith y mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd fod yn rhan ohono. Mae'r fframwaith ymchwiliadau ar y cyd a gymeradwywyd yn ddiweddar yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd arwain ar ymateb i gwynion ynglŷn ag oedi wrth drosglwyddo ac felly mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'w pherfformiad mewn perthynas â Digwyddiadau Niweidiol Difrifol a phryderon wella dros y misoedd nesaf.

[1] Mae Rhwng trosglwyddo a bod yn glir yn cyfeirio at yr amser rhwng trosglwyddo claf i Adran Achosion Brys a gallu ymateb i'r alwad nesaf. 15 munud yw'r targed ar hyn o bryd.

Byddwn yn cynnal archwiliad mwy manwl o'r elfennau sy'n tanategu trefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth yn gynnar yn 2020.

31 Fel a drafodwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2018, mae fformat yr offeryn tracio argymhellion archwilio'n effeithiol o ran galluogi aelodau'r Pwyllgor Archwilio i ddadansoddi statws argymhellion mewnol ac allanol cyfredol. Rydym hefyd yn nodi bod proffil yr offeryn tracio wedi cynyddu yn ystod 2019, gan ei fod bellach yn cael ei gynnwys fel rhan o gyfarfodydd y Tîm Rheoli Gweithredol. Fodd bynnag, fel a nodir yn arddangosion yr adroddiad hwn, mae argymhellion o 2017 a 2018 sy'n dal heb gael eu cwblhau'n llawn, y dylai'r Ymddiriedolaeth geisio mynd i'r afael â hwy yn gyflym.

## Sicrhau bod dyluniad sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol

**Dylai newidiadau arfaethedig i swyddogaethau corfforaethol ac ailbennu cydbwysedd portffolios gweithredol fod o gymorth i foderneiddio'r sefydliad**

32 Roedd gan yr Ymddiriedolaeth Gyfarwyddwr Cyllid a Chyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad Interim yn ystod 2019. Ar adeg y gwaith maes, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi penodi'n barhaol i swydd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad ac roedd y broses recriwtio wrthi'n mynd rhagddi ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Cyllid. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi penodi Cyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio newydd yn ddiweddar hefyd ac roedd yn ceisio recriwtio i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol a oedd wedi'i chreu o'r newydd. Bydd angen adlewyrchu'r swydd hon yn yr adolygiad nesaf o drefniadau dirprwyo a rheolau sefydlog yr Ymddiriedolaeth hefyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithredu â thair swydd wag ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol ers mis Ebrill 2019 hefyd, er bod un Cyfarwyddwr Anweithredol interim wedi bod yn ei le. Dywed Cyfarwyddwyr Anweithredol eu bod wedi gweithio oriau ychwanegol sylweddol yn ystod y flwyddyn i gyflenwi ar gyfer y swyddi gwag ond maent wedi bod yn hapus i wneud hynny dros dro. Mae hyn wedi cael ei reoli'n dda gan yr Ymddiriedolaeth ac nid yw wedi effeithio ar gworwm yng nghyfarfodydd Pwyllgorau, er ei bod yn croesawu'r sefydlogrwydd gwell a ddisgwylir unwaith y gwneir penodiadau parhaol.

33 Unwaith y bydd Cyfarwyddwyr Gweithredol parhaol yn eu lle, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu symud rhai swyddogaethau rhwng portffolios Gweithredol. Er enghraifft, symud y swyddogaeth ystadau o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad i'r Gyfarwyddiaeth Cyllid. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn buddsoddi mewn cyfarwyddiaeth gwasanaethau digidol newydd i gefnogi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol newydd. Mae'r gyfarwyddiaeth newydd hon yn gam pwysig yn y broses o foderneiddio'r Ymddiriedolaeth i wireddu'r uchelgeisiau a nodir yn ei Fframwaith Strategol Hirdymor ynglŷn â'r

gwasanaeth y mae'n ei gynnig i'w chleifion. Unwaith y bydd yn ei lle, bydd y gyfarwyddiaeth yn cael gorchwyl i ddatblygu strategaeth ddigidol yr Ymddiriedolaeth.

## Argymhellion blaenorol

34 Yn 2018 fe wnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â gweithredu drwy'r Cadeirydd, trefniadau llywodraethu ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a TGCh, risg a chydymffurfio â deddfwriaeth. Mae Arddangosyn 2 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

### Arddangosyn 2: cynnydd gydag argymhellion 2017 a 2018

| Argymhellion 2017 / 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| [2017: A4] Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion WHC 033. | Wedi'i gwblhau.<br>Canfu ein hadolygiad fod yr holl ddogfennau ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Ymddiriedolaeth. |
| [2017: A8] Dylai'r Ymddiriedolaeth wella cyflymder diweddaru ei pholisïau Llywodraethu Gwybodaeth a sicrhau cynnydd prydlon yn erbyn gofynion ehangach y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). | Wedi'i gwblhau.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan yn erbyn gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac mae adolygiad o log polisïau'r Ymddiriedolaeth yn 2019 yn dangos bod y rhan fwyaf o bolisïau allweddol mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth naill ai wedi cael eu cymeradwyo neu wrthi'n cael eu datblygu. |
| [2018: A1] Adolygu, egluro a lleihau'r angen i weithredu drwy'r Cadeirydd. | Wedi'i gwblhau.<br>Cafodd proses newydd ar gyfer gweithredu drwy'r Cadeirydd ei chymeradwyo gan y Bwrdd yn 2019. Fel a drafodwyd ym mharagraff 18, yn rhannol am bod cyfarfodydd y Bwrdd yn digwydd yn amlach ni weithredwyd drwy'r Cadeirydd yn ystod 2019. |

| Argymhellion 2017 / 2018 | Disgrifiad o’r Cynnydd |
|---|---|
| [2018: R2] Cymryd camau i gryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a TGCh drwy:<br>a) gynyddu presenoldeb rheolaidd aelodau craidd y Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth; ac<br>b) egluro a chyfleu cysylltiadau rhwng llywodraethu gwybodaeth a TGCh er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer goruchwylio busnes digidol yr Ymddiriedolaeth a chraffu ar hynny. | a) Wedi’i gwblhau. Dywed yr Ymddiriedolaeth fod lefelau presenoldeb wedi gwella yn ystod 2019.<br>b) Wedi’i gwblhau. Mae’r grwpiau llywio llywodraethu gwybodaeth a TGCh wedi cael eu gwahanu i egluro eu rolau. Mae cysylltiadau rhwng y ddau grŵp wedi cael eu ffurfioli gyda nifer o aelodau cyffredin. |
| [2018: A3] Gwella arferion risg trwy:<br>a) gynnwys digon o fanylion ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn FfSB i esbonio pam bod risgiau wedi'u codi/gostwng; a<br>b) sicrhau bod risgiau yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn weithredol a rhagweld risgiau yn y dyfodol, yn ogystal â myfyrio ar lwyddiant camau lliniarol. | a) Wedi’i gwblhau. Mae’r adroddiad ar y gofrestr risg gorfforaethol yn darparu mwy o naratif ynglŷn â pham fod y risg wedi cael ei huwchgyfeirio neu ei hisgyfeirio.<br>b) Wedi’i gwblhau. Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn adlewyrchu sefyllfa’r gofrestr risg gorfforaethol ar ôl ei diweddaru. |
| [2018: A4] Ystyried ffyrdd o roi sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o ddeddfwriaeth newydd, ac yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth honno. | Yn rhannol.<br>Mae Aelodau’r Bwrdd wedi cael cyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar eu fframwaith sicrwydd deddfwriaethol ac maent yn parhau i archwilio opsiynau i fynd i’r afael â’r argymhelliad hwn. |

# Cynllunio strategol

35 Mae ein gwaith yn ystyried sut y mae’r Bwrdd yn pennu amcanion strategol ar gyfer y sefydliad a pha mor dda y mae’r Ymddiriedolaeth yn cynllunio ar gyfer cyflawni’r rhain, gan ddefnyddio’r adnoddau sydd ganddi ar gael, neu y gall drefnu eu bod ar gael. Rydym hefyd yn archwilio trefniadau’r Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn ei hamcanion a’r gwahaniaeth y mae’n ei wneud.

36 Yn 2019, canfuom fod **gweledigaeth strategol glir, trefniadau cynllunio da ar y cyfan a threfniadau darparu wedi’u cryfhau, gyda chyfle i wneud rhai gwelliannau pellach.** Caiff ein canfyddiadau eu nodi isod.

## Pennu'r cyfeiriad strategol

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu gweledigaeth eglur ar gyfer y sefydliad, ac mae wedi cymryd rhai camau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phartneriaid a staff, ond bydd angen iddi weithio i sicrhau cysondeb rhwng ei Fframwaith Strategol Hirdymor a bwriadau comisiynu hirdymor**

37 Cymeradwywyd Fframwaith Strategol Hirdymor yr Ymddiriedolaeth (y Fframwaith) gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019. Mae'r Fframwaith yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y sefydliad sy'n disgrifio arlwy ehangach o lawer na'r gwasanaeth ambiwlans traddodiadol. Mae'r ddogfen yn nodi ffyrdd y mae ar yr Ymddiriedolaeth eisiau i'r gwasanaeth ddod yn fwy modern, wedi'i alluogi'n fwy yn ddigidol ac wedi'i integreiddio'n fwy o fewn y system iechyd ehangach. Bu'r Bwrdd yn rhan o ddatblygu'r Fframwaith Strategol Hirdymor, sy'n nodi gweledigaeth eglur yr Ymddiriedolaeth i 'gyflawni rhagoriaeth', gweledigaeth sydd hefyd yn amlwg yn ei chynlluniau strategol eraill, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019-22. Mae wyth thema i'r amcanion strategol sy'n tanategu'r weledigaeth hon, sy'n egluro sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu gwireddu ei huchelgeisiau. Mae disgwyl i bob rhifyn o Gynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth rhwng 2019 a 2030 weithio tuag at wireddu'r uchelgeisiau a nodir yn y cynllun.

38 Er nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gorff a enwir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae wedi cymryd camau i ymgorffori egwyddorion y ddeddfwriaeth yn ei chynlluniau strategol. Mae pob un o'r 42 o gamau gweithredu strategol sydd yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu mapio yn erbyn nodau pedwarplyg 'Cymru Iachach' hefyd.

39 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n rheolaidd â'i phartneriaid wrth ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- cael bwriadau comisiynu yn flynyddol, a sicrhau cymeradwyaeth ofynnol i'w Chynllun Tymor Canolig Integredig gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, gan gynnwys y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans;
- ymgysylltu strategol a gweithredol parhaus trwy gysylltiadau aelodau Gweithredol ac Anweithredol â byrddau iechyd; ac
- ymgysylltu â chynllunio strategol rhanbarthol trwy aelodaeth ar bedwar o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru.

40 Eleni, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran adnabod newidiadau i wasanaethau byrddau iechyd a allai effeithio ar ei busnes gweithredol neu fantol ariannol. Hysbysir y Bwrdd ynghylch unrhyw effaith bosibl trwy bapur strategol ar newidiadau i wasanaethau a ddarperir yn ystod

sesiynau caeedig cyfarfodydd y Bwrdd, sy’n bwydo i mewn i gynlluniau’r Ymddiriedolaeth. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn gwneud gwaith sylweddol i ymgysylltu’n barhaus â’r cyhoedd trwy ei thîm Profiad Cleifion a Chynnwys Cymunedau, a defnyddir gwybodaeth berthnasol o’r gweithgareddau ymgysylltu hynny yn ystod ei phroses cynllunio strategol.

41 Wrth ddatblygu ei Fframwaith Strategol Hirdymor, fe ymgysylltodd yr Ymddiriedolaeth â thua 440 o aelodau o’r cyhoedd, staff a phartneriaid, gan gynnwys y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans. Fe wnaethom sylwi na anfonodd yr Ymddiriedolaeth fersiwn a ddatblygwyd o’i Fframwaith Strategol Hirdymor at y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Fel a nodwyd yn flaenorol, mae’r Ymddiriedolaeth yn bwriadu defnyddio’i Chynllun Tymor Canolig Integredig treigl rhwng 2019 a 2030 i wireddu ei huchelgeisiau hirdymor. O ystyried y dylanwad sydd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ar Gynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth o ran pennu bwriadau comisiynu a chymeradwyo’r Cynllun Tymor Canolig Integredig drafft, bydd angen i’r Ymddiriedolaeth gynnal ymgysylltiad effeithiol parhaus i sicrhau cysondeb rhwng cyfeiriad strategol hirdymor yr Ymddiriedolaeth a bwriadau comisiynu hirdymor y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

## Datblygu cynlluniau strategol

**Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses gynllunio effeithiol ar gyfer ei Chynllun Tymor Canolig Integredig sy’n seiliedig ar alw a chapasiti a gwybodaeth feincnodi gynyddol; fodd bynnag, mae’r graddfeydd amser ar gyfer cytuno ar ei chynlluniau ar gyfer y gaeaf yn creu pwysau i sicrhau bod mesurau’n cael eu rhoi ar waith yn briodol**

42 Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2019-22 yw’r pedwerydd Cynllun Tymor Canolig Integredig o’r bron y mae’r Ymddiriedolaeth wedi cael cymeradwyaeth iddo o fewn yr amserlen ofynnol. Mae hyn yn gamp, yn enwedig o ystyried bod dau newid penodi wedi bod i swydd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn ystod 2018-19. Ni osodwyd unrhyw amodau ar yr Ymddiriedolaeth gan Lywodraeth Cymru wrth gymeradwyo’i Chynllun Tymor Canolig Integredig cyfredol.

43 Mae proses yr Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig yn gyfuniad o daro cydbwysedd rhwng amcanion lefel uchel a blaenoriaethau lleol. Mae’n ofynnol i bob cyfarwyddiaeth a rhanbarth ddatblygu Cynlluniau Cyflenwi Lleol unigol sydd wedyn yn bwydo i mewn i’r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, fe wnaeth y gwasanaeth archwilio mewnol ddarparu adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar Gynlluniau Cyflenwi Lleol yr Ymddiriedolaeth yn gynnar yn 2019. Roedd yr adroddiad yn amlygu angen

am waith pellach i wella trefniadau cynllunio, gan gynnwys sicrhau 'edefyn aur' rhwng cynlluniau lleol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn ogystal â gwella'r modd y caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu monitro. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datgan, gan bod y Fframwaith Strategol Hirdymor yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol, y bydd gan ardaloedd a chyfarwyddiaethau gyfeiriad cynharach a mwy eglur i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain, a ddylai gryfhau trefniadau cynllunio wrth edrych tua'r dyfodol. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adlewyrchu'r newidiadau hyn yn ei fframwaith rheoli perfformiad wedi'i adolygu.

44 Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ystod o fentrau a mesurau uwchgyfeirio i liniaru'r effaith niweidiol y mae pwysau tymhorol cynyddol yn gallu'u cael ar ei gwasanaeth trwy ei chynllun ar gyfer y gaeaf. Er enghraifft, yn ystod 2019, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweld mwy o ddefnydd o Ambiwlans Sant Ioan i roi cymorth ychwanegol yn ystod cyfnodau o bwysau uchel. Fel rhan o'i chynllun ar gyfer gaeaf 2019-20, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cytuno i gontractio darparwyr ambiwlansys preifat i helpu i leddfu'r pwysau ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, ni chytunwyd ar gynllun yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y gaeaf tan fis Medi 2019, sy'n creu pwysau sylweddol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod trefniadau llywodraethu ansawdd yn eu lle.

45 Yn 2016, fe gomisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o alw a chapasiti i adnabod tueddiadau a'r galw ymhlith y boblogaeth yn y dyfodol, ffyrdd y gallai fod yn fwy effeithiol ac effeithlon, a bylchau o ran adnoddau. Dywed yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi gwneud rhai newidiadau o ganlyniad i ganfyddiadau adolygiad 2016, gan gynnwys adolygu rhestrau dyletswyddau. Fodd bynnag, cyfyngwyd ar effaith yr adolygiad am ei fod wedi cael ei gynnal ar wahân gan yr Ymddiriedolaeth ac yn darparu golwg ar un adeg benodol. Yn unol ag argymhellion o'r Adolygiad Ambr yn 2018, mae'r Ymddiriedolaeth a'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans wedi cydgomisiynu adolygiad newydd o alw a chapasiti, gan ddefnyddio'r un darparwr ag yn 2016. Mae adolygiad eleni'n defnyddio dull mwy manwl o lawer gan ystyried sut y bydd angen i'r gwasanaeth a'i weithlu newid i ateb y galw ymhlith y boblogaeth gyda blaenolwg dros bum mlynedd. Mae disgwyl i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu cyflwyno mewn adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ym mis Tachwedd 2019. Gobeithir y bydd y data a'r rhagfynegiadau a ddarperir gan yr adolygiad yn galluogi'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, yn ogystal â'r Ymddiriedolaeth ei hun, wneud penderfyniadau a chynlluniau i gryfhau'r gwasanaeth ambiwlans a'r system ehangach o ran gofal heb ei drefnu. Fodd bynnag, mae'n achos pryder na chafodd yr adolygiad o alw a chapasiti a gwblhawyd yn flaenorol yn 2016 ei werthuso cyn bwrw ymlaen â'r adolygiad yn 2019.

46 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau â gwaith ar ei meddalwedd mewnol i fodelu'r galw sy'n cefnogi ei gwaith cynllunio gweithredol. Dylai'r data hwn helpu i roi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cylchoedd cynllunio yn y dyfodol.

47 Er gwaethaf cyfyngiadau cymharu o fewn GIG Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn dechrau edrych yn gynyddol ar ddata meincnodi i oleuo a chryfhau trylwyredd ei gwaith cynllunio strategol. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio defnyddio data o Adolygiad Carter[2] a phecyn cymorth meincnodi Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ar y cyd â Rhwydwaith Meincnodi'r GIG. Mae hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau ambiwlans eraill i archwilio data cymaradwy mewn meysydd megis salwch a'r adnoddau a ddefnyddir gyda phob digwyddiad.

## Monitro'r broses o gyflawni'r cynllun strategol

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella rhai trefniadau i roi cymorth i gyflawni ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, gan gynnwys sefydlu swyddfa rheoli prosiectau fach, er bod cyfle i gryfhau trosolwg gan Bwyllgorau**

48 Yn ystod 2019, fe newidiodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy ddisodli Grŵp Sicrwydd Cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig â Bwrdd Trawsnewid Strategol newydd sy'n cwrdd yn fisol ac yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol yn monitro cynnydd yn erbyn pob un o'r wyth thema strategol yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy gydol y flwyddyn ac yn darparu adroddiadau chwarterol ar gynnydd ar gyfer y Bwrdd.

49 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth bwyllgor strategaeth penodol ac mae amodau gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn nodi ei fod yn gyfrifol am y strategaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd y Bwrdd Trawsnewid Strategol gweithredol sy'n craffu ar waith i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig; mae'r Bwrdd yn craffu ar adroddiadau chwarterol ar gynnydd gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac mae trosolwg ar gyfer rhaglenni newid sylweddol yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i dirprwyo ar draws pob pwyllgor. Felly nid yw'n glir eto beth yw rôl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad mewn perthynas â strategaeth a sut y dylai hyn gyd-fynd â threfniadau presennol.

[2] Operational productivity and performance in English NHS Ambulance Trusts: Unwarranted variations (a adwaenir hefyd fel Adolygiad Cartref), a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018

Unwaith y bydd gan yr Ymddiriedolaeth nifer llawn o aelodau o’r Bwrdd bydd cyfle i drafod ac egluro trefniadau cyfredol.

50 Roedd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018-21 yn cynnwys 44 o gamau gweithredu strategol; yr oedd 30 ohonynt i fod i gael eu cyflawni yn 2018-19. Yn ôl adroddiad diwedd blwyddyn 2018-19, fe gyflawnodd yr Ymddiriedolaeth 21 o gamau gweithredu, cafodd pump eu cau a chafodd y gweddill eu hailbroffilio a’u cynnwys mewn blynyddoedd dilynol. Ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019-22 mae’r Ymddiriedolaeth wedi pennu 42 o gamau gweithredu strategol. Rydym wedi gwneud sylwadau mewn asesiadau strwythuredig ar gyfer blynyddoedd blaenorol am y diffyg adnoddau sydd wedi’u neilltuo i reolaeth prosiect ar waith yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae hyn yn hanesyddol wedi achosi i’r Ymddiriedolaeth ddibynnu ar gapasiti cyfyngedig ei staff i gyflawni camau gweithredu ac mae wedi effeithio’n rheolaidd ar eu cyflawni. Yn ystod 2019, fe sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Swyddfa Rheoli Prosiectau. Mae’r tîm yn fach, gyda dim ond tri aelod o staff i gynorthwyo Swyddogion Gweithredol i gyflawni camau gweithredu strategol. Fodd bynnag, mae’r adnodd hwn yn darparu capasiti ychwanegol y mae ei ddirfawr angen i gryfhau gallu’r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei chynlluniau. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau ei fframwaith rheoli prosiectau hefyd sy’n rhoi anogaeth i wella amlygrwydd prosiectau ac yn gwneud dulliau rheoli prosiectau’n fwy cyson.

# Rheoli adnoddau ariannol

51 Fe wnaethom ystyried y cam gweithredu y mae’r Ymddiriedolaeth yn ei gymryd i fantoli’r cyfrifon ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull o gynllunio ariannol, rheolaethau a gwarchodaeth ariannol, a’r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Fe wnaethom hefyd adolygu’r cynnydd a wnaed o ran mynd i’r afael â’n hargymhellion.

52 Canfuom fod yr **Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau ariannol, ond gallai wella’r modd y mae’n cynllunio cyfalaf, yn cyflawni arbedion ac yn adrodd ar weithredoedd tendrau sengl.** Caiff ein canfyddiadau eu nodi isod.

## Perfformiad ariannol

**Mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes o fantoli'r cyfrifon ariannol er bod gwaith cyflawni adrannol i gyllidebu a pherfformiad yn erbyn cynlluniau arbedion unigol yn dal i fod yn amrywiol**

53 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fantoli'r cyfrifon a chyflawni arbedion wedi'u cynllunio ar y cyfan. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol ar gyfer 2018-19 gyda thanwariant ar y cyfan am y flwyddyn o £57,000. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ar gyfer y cyfnod o dair blynedd 2016-19 hefyd. Ym mis chwech o 2019-20, roedd sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn dangos tanwariant bach o £11,000. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.

54 Yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis chwech, roedd gan y gyfarwyddiaeth weithredol orwariant o £108,000 ac roedd gan y gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys orwariant o £264,000. Mae'r gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys yn gorwario'n rheolaidd yn erbyn ei gyllideb, a amlygwyd gennym yn ein hasesiad strwythuredig yn 2018. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi archwilio'r rhesymau dros y gorwariant rheolaidd hwn, gan gynnwys tangyllido posibl a meysydd lle ceir aneffeithlonrwydd, ac mae mewn deialog barhaus gyda'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans ynglŷn â datrysiadau.

55 Mewn perthynas ag arbedion, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth werth £4.3 miliwn o arbedion yn erbyn ei darged yn 2018-19 o £4.2 miliwn. Ar gyfer 2019-20, £2.1 miliwn yw'r targed arbedion, ac erbyn mis chwech roedd gwerth £1.138 miliwn o arbedion wedi cael eu cyflawni yn erbyn targed a broffiliwyd o £1.127 miliwn. Rydym wedi adrodd yn flaenorol bod y modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni arbedion a gynlluniwyd yn anghyson, gyda themâu sy'n tanberfformio'n cael eu gwrthbwyso gan themâu sy'n gorgyflawni. Yn 2018-19, ni chafodd yr un o'r arbedion o £200,000 a oedd yn ymwneud â Chludo Cleifion Di-frys eu cyflawni ac fe dangyflawnodd tair thema arbedion arall yn erbyn eu targedau. Fe wnaed iawn am y tangyflawniad hwn am bod gan dair thema arbedion orgyflawniad o fwy nag £1 miliwn. Er enghraifft, roedd gan y thema rheoli swyddi gwag anweithredol orgyflawniad o £816,000 yn 2018-19. Er bod heriau bob amser o ran cynllunio a rheoli arbedion, mae risg bod anghysondeb parhaus o ran cyflawni arbedion wedi'u cynllunio'n creu problemau sylweddol yn y dyfodol.

## Cynllunio ariannol

**Er bod proses gyffredinol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio ariannol yn effeithiol ar y cyfan nid yw cynllunio cyfalaf yn ddigon strategol er gwaethaf rhai gwelliannau diweddar i brosesau**

56 Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n rheolaidd i adnabod ysgogiadau costau o fewn ei hadroddiadau ariannol i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd. Er enghraifft, fel a drafodwyd ym mharagraff 42 mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol i adnabod effaith bosibl newidiadau i wasanaethau'r bwrdd iechyd ar ei chyllid trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod 2019, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhagweld effaith ariannol bosibl ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd hefyd ac mae'n gweithio ar amryw senarios.

57 Er y cyllidir yr Ymddiriedolaeth yn bennaf trwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, mae hefyd yn cael cyllid yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, yn gyllid refeniw a chyfalaf, yn aml i gyflenwi ei chynllun ar gyfer y gaeaf i reoli brigau yn y galw. Mae'r arian hwn yn aml yn dod yn hwyr yn y flwyddyn ariannol gydag ychydig o rybudd rhag blaen a gyfrannodd, yn 2018-19, at swm sylweddol o arian cyfalaf heb ei wario tuag at ddiwedd y flwyddyn. Galwodd y Bwrdd gyfarfod arbennig ym mis Mawrth 2019 i gytuno ar dri chynllun a allai ddefnyddio'r cyllid yn gyflym. Wedyn cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad astudiaeth a oedd yn mynd at wraidd y mater i ddeall beth arweiniodd at y sefyllfa ac fe luniodd yr Ymddiriedolaeth bapur ar y gwersi a ddysgwyd a oedd yn nodi'r materion canlynol:

- hysbysiad hwyr ynghylch cyllid ar gyfer y gaeaf gan Lywodraeth Cymru;
- bod ag arian cyfalaf heb ei neilltuo yn y gyllideb flynyddol;
- diffyg achosion busnes wedi'u datblygu ar gyfer cronfeydd wrth gefn; a
- gwendidau mewn achosion busnes a gymeradwywyd.

58 Ers hynny mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu a chymeradwyo nifer o achosion busnes ar gyfer cronfeydd wrth gefn a all ddechrau ar fyr rybudd, gan hefyd wella'i phrosesau ar gyfer achosion busnes. Fodd bynnag, adroddodd yr Ymddiriedolaeth wrth Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad mis Hydref 2019 fod ganddi £2.1 miliwn o gyfalaf heb ei ddyrannu oherwydd llithriant mewn cynlluniau cyfredol a ychwanegodd gyfanswm o £400,000 at ei gyllid cyfalaf a oedd heb ei ddyrannu ar y pryd. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ganddi ddigon o gapasiti a gallu rheoli prosiectau i atal llithriant mewn cynlluniau. Dylai hefyd ddatblygu dull mwy hirdymor lle mae cyllid cyfalaf yn y cwestiwn, i wneud defnydd strategol gwell o gyllid cyfalaf, yn gyson â'i Chynllun Tymor Canolig Integredig. Bydd hyn hefyd yn bwysig ar gyfer rhoi cymorth i gyflawni'r strategaeth ddigidol newydd sy'n cael ei datblygu.

59 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2018, fe argymhellom ni fod yr Ymddiriedolaeth yn ystyried manteision datblygu strategaeth rheoli asedau drosfwaol. Ar hyn o bryd, mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau ar gyfer mathau penodol o asedau, gan gynnwys Cynllun Amlinellol Strategol Ystadau a Chynllun Amlinellol Strategol Fflyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y byddai datblygu strategaeth rheoli asedau yn ei galluogi i gynllunio'r defnydd o'i arian cyfalaf yn fwy eglur mewn ffordd gydgysylltiedig, a chysoni achosion busnes yn well ar draws yr amryw elfennau. Yn ystod 2019 fe gyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Fwrdd Rheoli Cyfalaf Mewnol, sy'n dwyn ynghyd y grwpiau a'r byrddau sy'n goruchwylio elfennau amrywiol o asedau'r Ymddiriedolaeth, megis y Grŵp Cynllunio Cyfalaf Mewnol, y Bwrdd Rhaglen Ystadau a'r Bwrdd Rhaglen Caffael Cerbydau. Unwaith y bydd wedi ymwreiddio, dylai'r Bwrdd Rheoli Cyfalaf helpu i ddarparu golwg fwy cyfunol o'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli asedau a galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu strategaeth rheoli asedau. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gostau parhaus sylweddol o ran fflyd ac ystâd, gan gynnwys lefelau uchel iawn o waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. A hithau wedi cydnabod manteision posibl strategaeth rheoli asedau, dylai'r Ymddiriedolaeth amcanu at fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn gyflym.

60 Dull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio arbedion yw adnabod themâu arbedion trosfwaol, sydd â nifer o gamau gweithredu i gyflawni arbedion ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig bod ei 'dull o ddatblygu cynlluniau arbedion wedi adlewyrchu'r angen i gyflawni gostyngiadau cynaliadwy a chylchol mewn costau a hynny ar unwaith'. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn nodi bod ei holl arbedion wedi bod yn rhai cylchol ers 2017-18. Fodd bynnag, mae rhai themâu, megis rheoli swyddi gwag nad ydynt yn ymwneud â gweithrediadau yn cyflawni arbedion trwy osgoi costau yn hytrach nag arbedion cylchol, ac mae thema cynlluniau lleol yn gogwyddo at greu incwm yn hytrach nag arbedion. Er bod y themâu hyn yn parhau i gynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i fantoli'r cyfrifon, mae'r angen parhaus i gyrraedd targedau o ran arbedion yn golygu y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ofalu bod pob un o'i themâu arbedion yn gynaliadwy yn y tymor hir.

## Rheolaeth a rheolaethau ariannol

**Mae rheolaeth a rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol ar y cyfan, gyda chynlluniau i ffurfioli cymorth busnes cyllid i gryfhau trefniadau**

61 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth bartner busnes cyllid yn 2018 i roi cymorth cynllunio a rheoli'r gyllideb. Roedd hwn yn gyfyngedig iawn o ran ei gwmpas ac yn cael ei ddefnyddio'n benodol i ganfod ac ymdrin â'r rhesymau pam fod yr adran Cludo Cleifion Di-frys yn gyson yn gorwario yn erbyn y gyllideb. Er bod

rheolwyr ariannol yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cymorth parhaus i'w hadrannau, nid yw hyn wedi'i ffurfioli'n fodel partner busnes ehangach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ailstrwythuro'i hadran gyllid yn 2020, a fydd yn rhoi cyfle i ffurfioli a gwreiddio cymorth gweithredol ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol ymhellach ar draws adrannau. Mae hyn wedi'i atal ar hyn o bryd nes y bydd Cyfarwyddwr Cyllid parhaol wedi'i benodi ond dylai symud ymlaen cyn gynted â phosibl wedi hynny.

62 Mae ymarfer paru data dwyflynyddol y Fenter Twyll Genedlaethol yn helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Ym mis Ionawr 2019, cafodd yr Ymddiriedolaeth 848 o bariadau data, gyda 159 ohonynt yn rhai yr ystyrid eu bod yn risg uchel ac yr argymhellwyd eu hadolygu'n gynnar. O ran y sefyllfa ar 15 Hydref 2019, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran adolygu'r pariadau risg uchel gydag ymholiadau'n mynd rhagddynt mewn nifer o achosion. Fodd bynnag, nid yw cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cofnodi bod unrhyw bariadau sy'n ymwneud â thaliadau i gredydwyr wedi cael eu hadolygu, gan gynnwys pariadau risg uchel/gwerth uchel. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith pellach i archwilio effeithiolrwydd trefniadau atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda golwg ar gyhoeddi ei ganfyddiadau yn haf 2020. Bydd ei waith yn cael ei oleuo gan waith maes lleol a fydd yn dechrau tuag at ddiwedd 2019.

## Trosolwg a chraffu ar berfformiad ariannol

**Mae newidiadau i'r strwythur pwyllgorau a'r trefniadau rheoli risg wedi cryfhau trosolwg ar berfformiad ariannol, er bod diffyg eglurder mewn adroddiadau ar weithredoedd tendrau sengl**

63 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau monitro ariannol misol sydd wedi hen ennill eu plwyf. Creffir yn rheolaidd ar y sefyllfa ariannol, risgiau ariannol a chyflawni arbedion gan y Grŵp Cyllid Gweithredol, y Tîm Rheoli Gweithredol a Llywodraeth Cymru.

64 Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd hefyd yn craffu ar gyflawni ariannol a chyflawni arbedion bob deufis. Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth ar wella'i threfniadau rheoli risg wedi arwain hefyd at gynnwys y risg o 'barhau i fantoli'r cyfrifon' ar y gofrestr risg, er yr ystyrir bod y tebygolrwydd y bydd yn digwydd yn isel. Dylai'r drefn bresennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar risg ac adroddiadau ariannol i bwyllgorau a'r Bwrdd alluogi'r Ymddiriedolaeth i adnabod, lliniaru a thracio unrhyw faterion o ran perfformiad mewn perthynas â mantol ariannol yr Ymddiriedolaeth mewn ffordd reolaidd a thryloyw.

65 Fel y rhan fwyaf o sefydliadau GIG Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn gyson yn ceisio cyflawni arbedion trwy weithgareddau caffael. Ar gyfer 2019-20 mae gan thema caffael darged arbedion o £300,000 a oedd ar y trywydd iawn i gael ei gyrraedd ym mis Medi 2019. Yn asesiad strwythuredig 2018 fe wnaethom sylwadau ar rai gwendidau yn nhrosolwg yr Ymddiriedolaeth ar y caffael a wnaed gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus bod ei throsolwg wedi gwella, gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Interim yn ymgysylltu'n rheolaidd â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru trwy gydol y flwyddyn i drafod arbedion a pherfformiad ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cael ei adolygu eto. A chydnabod bod yr elfen gaffael yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ehangach rhwng yr Ymddiriedolaeth a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, dylai'r Ymddiriedolaeth geisio adolygu'r cytundeb i gryfhau trefniadau llywodraethu mewn perthynas â chaffael pan fo'n bosibl.

66 Mae cyfle i wella eglurder a diben adroddiadau ariannol mewn perthynas â gweithredoedd tendrau sengl. Rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Medi 2019 mae'r Ymddiriedolaeth wedi dyfarnu deg gweithred tendr sengl. Er bod yr adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, a bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynyddu lefel y manylder sydd wedi'i chynnwys o'i gymharu â rhai blynyddoedd yn ôl, mae'r diffyg naratif a chyd-destun yn yr adroddiad yn ei gwneud yn anodd deall a yw penderfyniadau a wneir yn cynnig gwerth am arian, yn gadael yr Ymddiriedolaeth yn agored i risg, neu'n adlewyrchu gwendidau yn nhrefniadau rheoli contractau, trefniadau cynllunio a rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Er enghraifft, does dim llawer o eglurhad o fewn adroddiadau ynghylch rhesymeg y weithred ac nid ydynt yn egluro unrhyw wahaniaethau rhwng y costau a gynllunwyd a'r costau go iawn. Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru Sicrhau Gwerth am Arian yn y Defnydd o Weithredoedd Tendrau Sengl sy'n darparu cwestiynau defnyddiol i aelodau o bwyllgorau archwilio eu hystyried mewn perthynas â gweithredoedd tendrau sengl i sicrhau craffu effeithiol a chadarn. Rydym hefyd yn nodi bod bwriad i gynnal adolygiad archwilio mewnol o weithredoedd tendrau sengl ar ddechrau 2020.

## Argymhellion blaenorol

67 Yn 2017 a 2018 fe wnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas ag arbedion, trosolwg ar gaffael a rheoli asedau. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

### Arddangosyn 3: cynnydd gydag argymhellion 2017 a 2018

| Argymhelliad 2017 / 2018 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| [2017: A2] Dylai'r Ymddiriedolaeth wneud yn siŵr bod ei Hadroddiadau Cyflawni Arbedion yn nodi unrhyw risgiau y gallai cynlluniau arbed arian eu peri i berfformiad neu ansawdd y gwasanaeth. | Wedi'i gwblhau.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n rheolaidd i ystyried a nodi risgiau gweithredol a risgiau i ansawdd yn ei adroddiadau amlygu arbedion i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. |
| [2017: R3] Mae angen i'r Ymddiriedolaeth roi sylw i'r gwelliannau pellach i reolaethau rheoli asedau a nodwyd yn adroddiad cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol a'r Memorandwm Archwilio Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2016-17. | Wedi'i gwblhau.<br>Cafodd gwaith i ganlyn arni â system Rheoli Asedau Gwirioneddol (RAM) yr Ymddiriedolaeth ei rheoli'n dda a'i chwblhau ar ddechrau 2019 sy'n ategu bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith. |
| [2018: R5] Archwilio effaith trefniadau parhaus i reoli swyddi gwag ar gapasiti corfforaethol yr Ymddiriedolaeth. | Wedi'i gwblhau.<br>Dywed yr Ymddiriedolaeth ei bod yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu effaith bosibl ei harbedion ar ddarparu ei gwasanaethau a'u hansawdd ac nad yw wedi canfod unrhyw effaith anffafriol o ganlyniad i'r thema arbedion hon, sy'n dal i orgyflawni'n sylweddol o'i gymharu â'r targed. |
| [2018: A6] Gwella ei goruchwyliaeth dros weithgarwch caffael a gyflawnir ar ei rhan gan PCGC, a'i pherchnogaeth ar hynny, gan gynnwys:<br>a) adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r PCGC; and<br>b) chraffu mwy ar adroddiadau chwarterol ar berfformiad. | Yn rhannol.<br>a) Heb ei gwblhau eto. Mae caffael yn un elfen o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ehangach gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi'i adolygu eto.<br>b) Wedi'i gwblhau. Dywed yr Ymddiriedolaeth fod ansawdd adroddiadau ar berfformiad wedi gwella yn 2019. |
| [2018: A7] Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried manteision posibl datblygu strategaeth gyffredinol i reoli asedau. | Wedi'i gwblhau.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu strategaeth rheoli asedau cyn bo hir, a'r gwaith hwnnw'n cael ei lywio gan y Bwrdd Rheoli Cyfalaf. |

# Rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu

68 Fe wnaethom ystyried y cam gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gymryd i sicrhau bod ei gweithlu'n cael ei reoli'n dda a'i fod yn gynhyrchiol. Fe wnaethom hefyd asesu trefniadau ar gyfer diwallu anghenion hyfforddi a datblygu a chamau gweithredu i ymgysylltu â staff a gwrando arnynt a diwallu anghenion llesiant.

69 Canfuom fod **gwaith yn mynd rhagddo i foderneiddio'r gweithlu, gwella lles staff a mynd i'r afael â heriau gyda hyfforddiant ac absenoldeb oherwydd salwch**. Caiff ein canfyddiadau eu nodi isod.

## Rheoli'r gweithlu

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i ailddylunio'i gweithlu ond nid yw wedi cyflawni gostyngiad parhaus mewn cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch eto**

70 Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu gwneud nifer o newidiadau i'w fodel ar gyfer y gweithlu er mwyn cefnogi'r gwasanaeth clinigol gwell a ddisgrifir yn ei Fframwaith Strategol Hirdymor, gan gynnwys:

- Parhau i uwchsgilio'i gweithlu parafeddygol, gyda'r rhan fwyaf o'i gweithlu parafeddygol wrthi'n dilyn rhaglen hyfforddi dros ddwy flynedd i gamu ymlaen o fand pum i fand chwech yn y fframwaith cyflog Agenda ar gyfer Newid.
- Adolygu rôl rheolwyr parafeddygon lleol, Arweinwyr Timau Clinigol.
- Parhau i ehangu ei chohort o Uwch Ymarferwyr Parafeddygol[3], Staff Desg Glinigol[4], a Thimau Cwympiadau[5], yn amodol ar ystyriaeth gan ei chomisiynwyr.

[3] Mae Uwch Ymarferwyr Parafeddygol wedi'u hyfforddi i drin ystod ehangach o achosion allan yn y gymuned, sy'n lleihau'r angen i gludo cleifion i'r ysbyty.

[4] Mae staff Desg Glinigol yn nyrsys sydd wedi cael hyfforddiant clinigol sy'n rhoi cyngor i gleifion o Ganolfannau Cyswllt Clinigol.

[5] Mae Timau Cwympiadau'n adolygu cyfleoedd i leihau'r risg o gwympiadau a chwympiadau mynych ymhlith pobl oedrannus ac eiddil, sy'n gyfran sylweddol o'r galw am wasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

- Archwilio, mewn trafodaeth gyda'i chomisiynwyr, bwlch wrth gefn[6] yr Ymddiriedolaeth a'r adnoddau y mae eu hangen i gyfateb i'w hadnoddau arfaethedig a gwirioneddol.
- Parhau i ddod â holl weithgarwch y Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys i mewn o bob un o'r byrddau lleol.
- Parhau i ddatblygu'r gwasanaeth 111 cenedlaethol.

71 Mae potensial felly ar gyfer cynnydd sylweddol a nifer o newidiadau i fodel gweithlu'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol agos. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth reoli'r newidiadau hyn yn effeithiol er mwyn cynnal a moderneiddio ei gwasanaeth yn unol â'i weledigaeth strategol.

72 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Strategaeth Pobl a Diwylliant sydd i fod i gael ei hystyried gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2019. Nod y Strategaeth Pobl a Diwylliant yw disgrifio'n fwy eglur sut y gall yr Ymddiriedolaeth wireddu ei huchelgais i gynorthwyo'i 'phobl i fod y gorau y gallant fod' sy'n cwmpasu pum amcan ar gyfer y gweithlu gan gynnwys gwirfoddoli, hyfforddiant ac iechyd a llesiant. Mae'r strategaeth hon wedi'i bwriadu i weithio fel ffactor galluogi i helpu'r Ymddiriedolaeth i reoli ei hagenda moderneiddio'r gweithlu.

73 Y llynedd, fe wnaethom nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu pecyn cymorth cynllunio trylwyr a manwl ar draws ei chyfarwyddiaethau i oleuo'i phroses gynllunio ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan gynnwys ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2019-22. Mae'n ofynnol i bob cyfarwyddiaeth gwblhau'r pecyn cymorth sy'n goleuo cynlluniau canolog am anghenion o ran y gweithlu. O'i ddefnyddio'n effeithiol, bydd y pecyn cymorth hwn yn cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i fod â golwg eang ar ei hanghenion o ddydd i ddydd lle mae'r gweithlu yn y cwestiwn.

74 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gael llwyddiant parhaus gyda'i digwyddiadau recriwtio 'Big Bang' sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i or-recriwtio, gan gynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i reoli trosiant staff a ragwelir. Fel rhan o'i chynllun ar gyfer gaeaf 2019-20, bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ceisio recriwtio 50 o barafeddygon hyfforddedig ychwanegol i helpu i reoli ac ateb y galw. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau o ran dod o hyd i ddigon o ymgeiswyr i gyflawni ei gam arfaethedig i ehangu'r cohort o Uwch Ymarferwyr Parafeddygol a datblygu'r gwasanaeth 111. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd awch cynyddol am y rolau hyn wrth iddynt ymwreiddio'n fwy a chael eu deall yn well.

[6] Bwlch wrth gefn yw pan fo adnoddau wedi'u cynllunio i gyflenwi yn ystod absenoldebau disgwyliedig ac annisgwyl, megis gwyliau blynyddol ac absenoldeb oherwydd salwch, sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn dal i allu gweithredu'n effeithiol.

75 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi profi problemau sylweddol gydag absenoldeb oherwydd salwch am nifer o flynyddoedd. Yn ystod 2019, gwelwyd rhywfaint o welliant i gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn yr Ymddiriedolaeth, gyda gostyngiad o 8% ym mis Ionawr i 6.2% ym mis Mai ond nid yw'r gwelliant hwn wedi cael ei gynnal. Ym mis Awst 2019 roedd y gyfradd salwch yn 7.5% o'i gymharu â 7.3% ym mis Awst 2018. Mae absenoldeb oherwydd salwch wedi cael cryn sylw gan yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf. Fe gytunodd yr Ymddiriedolaeth ar gynllun gweithredu naw pwynt i geisio mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol ac fe gynhaliodd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd astudiaeth a oedd yn mynd at wraidd y mater ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod llawer mwy o waith ganddi i'w wneud, gan gynnwys adolygiad llawn o wasanaethau Iechyd Galwedigaethol a ffocws ar salwch byrdymor sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2020.

## Hyfforddi a datblygu

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio rheoli heriau o ran hyfforddiant ar gyfer ei gweithlu yn awr ac yn y dyfodol ac mae ei chyfraddau ar gyfer arfarniadau a hyfforddiant gorfodol yn parhau i wella**

76 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod mai un o'r heriau mwyaf i wireddu ei gweledigaeth ar gyfer ei gweithlu yw sicrhau bod hyfforddiant yn ei galluogi i wneud y newidiadau y mae arni eisiau eu gwneud. Ym mis Gorffennaf 2019 fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r Strategaeth Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant. Mae'r Strategaeth Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant yn nodi'n glir bod angen moderneiddio hyfforddiant ar gyfer parafeddygon er mwyn rhoi cymorth i foderneiddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae hyfforddiant ar gyfer staff yr Ymddiriedolaeth yn aml yn gyfyngedig am bod rhaglenni hyfforddi wedi'u hamserlenni ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn ac y cyfyngir arnynt gan feintiau dosbarthiadau. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar gais am statws prifysgol, sy'n darparu cyfleoedd sylweddol i gryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda phrifysgolion ledled Cymru a fydd yn helpu i wneud hyfforddiant yn fwy hygyrch a pherthnasol wrth i'r Ymddiriedolaeth ganlyn arni â'i hagenda moderneiddio'r gweithlu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei oruchwylio gan bwyllgor partneriaeth cysgodol, y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn y gynnar yn 2020.

77 O ran hyfforddiant statudol a gorfodol, roedd perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gyson yn uwch na 90% trwy gydol 2018-19, sydd y tu hwnt i'r targed cenedlaethol o 85%. Roedd cyfraddau arfarniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018-19 yn 75% yn erbyn targed o 80%. Yn ein strategaeth strwythuredig 20218 fe wnaethom nodi bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio i wella ansawdd

arfarniadau a chysylltu arfarniadau â'r Cofnod Staff Electronig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn gwneud y gwaith hwn. Nes y bydd wedi'i gwblhau, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau o ran adnabod a diwallu anghenion hyfforddiant staff unigol mewn ffordd syml ac amserol.

78 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu dangosfwrdd datblygu'r gweithlu a datblygu sefydliadol, yr adroddir arno ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd. Cyflwynwyd yr adroddiadau hyn i sicrhau cysondeb yn y data ynghylch y gweithlu yr adroddir arno'n fewnol ac yn allanol. Hefyd, mae absenoldeb oherwydd salwch yn un o'r 'deg uchaf' o ran metrigau sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig bob chwarter ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch ac ar gyfer y Bwrdd. Dylai'r adroddiadau tryloyw a rheolaidd ar fetrigau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y gweithlu ategu trosolwg a chraffu ar agenda bwysig yr Ymddiriedolaeth o ran y gweithlu dros y blynyddoedd nesaf.

## Ymgysylltu â staff a llesiant staff

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â staff ac yn gwella llesiant staff trwy waith ar wrthdaro, trais ac ymosodedd ac iechyd meddwl ymhlith staff**

79 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwaith sylweddol o ran ymgysylltu â staff. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi crybwyll agweddau megis y seremoni wobrwyo flynyddol ar gyfer staff a chyd-deithio rheolaidd ac anffurfiol gan aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Mae cynrychiolaeth undebau llafur ar Fwrdd a phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ychwanegiad pwysig at y cyfleoedd gwerthfawr parhaus hyn i staff ymgysylltu a rhannu profiadau gydag aelodau'r Bwrdd. Er bod y digwyddiadau ymgysylltu a arferai ddilyn cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi dod i ben yn ystod 2019 i alluogi cyfarfodydd y Bwrdd i bara am ddiwrnod cyfan, mae storïau staff bellach yn cael sylw yng nghyfarfodydd y Bwrdd, bob yn ail â storïau cleifion. Fe gynhaliodd y Prif Weithredwr dros 20 o 'sioeau teithiol' ymgysylltu rhagarweiniol gyda staff ledled Cymru hefyd. Roedd hyn yn gyfle i staff adrodd yn ôl ar y pethau a oedd yn gweithio'n dda yn eu tyb hwy a'r pethau a allai wella. Mae'r wybodaeth hon wedi bwydo i mewn i bedair ffrwd waith a fydd yn cael eu cynnwys fel rhan o Gynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23

80 Cymerodd yr Ymddiriedolaeth ran yn arolwg staff GIG Cymru tuag at ddiwedd 2018. Roedd cyfraddau cyfranogi'r Ymddiriedolaeth o ran ymateb i arolwg staff 2018 (42%) yn uwch nag yn 2016 (30%), ac yn uwch nag ar lefel Cymru gyfan (29%). Canfu dadansoddiad yr Ymddiriedolaeth ei hun o ganlyniadau'r arolwg symudiad cadarnhaol ar y cyfan o'i gymharu â 2016. Gwelodd yr Ymddiriedolaeth newidiadau cadarnhaol o ran rheolaeth llinell, dysgu a

datblygu ac amrywiaeth, ond sgorau is ar gyfer aflonyddu, bwlio a chamdriniaeth, a newid yn y sefydliad. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth gyfres o weithdai i annog staff i drafod y canlyniadau ac adnabod themâu i lywio gwelliant y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu datblygu yn ffrydiau gwaith ar gyfer 2020.

81 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau â'i rhaglen i wella llesiant staff hefyd. Y llynedd, fe wnaethom nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi lansio Rhaglen Rheoli Risg Trawma (TRiM) i gryfhau'r cymorth y mae'n ei roi i staff parafeddygol sydd wedi profi digwyddiad trawmatig yn y gwaith. Mae'r rhaglen wedi cael ei chyflwyno i fwy o staff, gan gynnwys staff y Ganolfan Cyswllt Clinigol yn ystod 2019, sydd wedi cael derbyniad da. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu grŵp llywio diogelwch personol hefyd sy'n rheoli cynllun lleihau trais ac mae'n bwriadu treialu camerâu a wisgir ar y corff ar gyfer ei gweithlu parafeddygol er mwyn atal a lleihau digwyddiadau trais ac ymosodedd.

## Argymhellion blaenorol

82 Yn 2017 fe wnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â lleihau absenoldeb oherwydd salwch. Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 4: cynnydd gydag argymhelliad 2017

| Argymhelliad 2017 | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| [2017: A7] Dylai’r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu camau gweithredu i leihau lefelau salwch | Ar y gweill<br>Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar absenoldeb oherwydd salwch trwy ystod o fesurau, ac y bu gwelliant yn ystod 2019, ers hynny mae absenoldeb oherwydd salwch wedi dychwelyd at ei lefelau uchel blaenorol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru